Rhan C – Y canfasiad blynyddol

Cynnwys

1 Dyletswyddau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol
- Camau i'w cymryd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol
- Cynllunio'r canfasiad blynyddol
- Y ffurflen ganfasio
- Cynnwys deunydd ychwanegol nad yw'n ddeunydd etholiadol ar neu gyda ffurflenni cofrestru etholiadol
- Pleidleisio absennol

2 Cynnal y canfasiad
- Dosbarthu ffurflenni canfasio
- Gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ

3 Gwybodaeth o ffynonellau eraill
- Edrych ar gofnodion eraill y cyngor
- Hawl Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ofyn am wybodaeth
- Cysylltu mewn ffyrdd eraill
- Cadw cofnodion ar y gofrestr
- Eithrio a'r cyfnod 'cario drosodd'

4 Ffurflenni cofrestru treigl a gafwyd yn ystod y cyfnod canfasio

5 Diwedd y canfasiad
- Cyhoeddi cofrestr
- RPF29
- Ffurflenni safonau perfformiad
- Darparu'r gofrestr lawn
- Cadw ffurflenni cofrestru
- Y 'rheol 11 diwrnod' a'r canfasiad blynyddol
- Cofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiadau ym mis Rhagfyr

6 Rhagor o adnoddau
- Taflenni eithrio
- Adnoddau canfasio blynyddol

1 Dyletswyddau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol

Camau i'w cymryd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol

1.1 O dan Adran 9 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (DCyB 1983) mae dyletswydd ar Swyddog Cofrestru Etholiadol i gynnal cofrestrau o etholwyr seneddol a llywodraeth leol sy'n cynnwys enw, cyfeiriad cymhwyso a rhif etholiadol y sawl sydd, iddynt hwy, yn ymddangos fel pe bai ganddynt yr hawl i gael eu cofrestru ynddi.

1.2 Mae'r ddyletswydd hon ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol i gynnal y gofrestr yn cynnwys y gofyniad i gynnal canfasiad blynyddol yn unol ag Adran 10 o DCyB 1983 er mwyn canfod unrhyw un sydd â'r hawl i gael ei gofrestru ond nid yw'n gyfyngedig i'r gofyniad hwn. Cynhelir y canfasiad blynyddol hwn gan gyfeirio at y dyddiad perthnasol sef 15 Hydref, pan fo'n rhaid i unigolyn fod yn byw yn y cyfeiriad y mae'n gwneud cais i gael ei gofrestru mewn perthynas ag ef.

1.3 Mae Adran 9A o DCyB 1983 yn gosod dyletswydd ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol i gymryd pob cam angenrheidiol i gynnal y gofrestr etholiadol. Amlinella Adran 9A y camau canlynol:

- anfon y ffurflen i'w defnyddio ar gyfer y canfasiad i unrhyw gyfeiriad fwy nag unwaith
- gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ fwy nag unwaith
- cysylltu â phobl nad ydynt ar y gofrestr mewn ffordd arall sy'n briodol ym marn y Swyddog Cofrestru Etholiadol
- edrych ar unrhyw gofnodion a gedwir gan unrhyw un y mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr hawl i edrych arnynt
- hyfforddi pobl o dan eu cyfarwyddyd neu eu rheolaeth mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd

1.4 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol benderfynu ar y camau sy'n 'angenrheidiol' ei hun, p'un a ydynt wedi'u rhestru yn Adran 9A o DCyB 1983 ai peidio, er mwyn sicrhau ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gynnal y gofrestr; rhwymedigaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw cymryd **yr holl gamau sy'n angenrheidiol** i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd i gynnal y gofrestr, gan ystyried yr amgylchiadau ymhob achos.

1.5 Felly, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried yr holl gamau a restrir yn Adran 9A o DCyB 1983 a chymryd yr holl gamau hynny, neu yn wir unrhyw gam(au) eraill nas rhestrir, sy'n angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn cyflawni ei ddyletswydd a phennu pwy sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio a'i gynnwys ar y gofrestr o etholwyr. Nid oes angen cymryd y camau mewn unrhyw drefn benodol.

1.6 Os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cymryd y camau angenrheidiol, bydd yn torri ei ddyletswydd swyddogol, a all arwain at ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol yn dilyn collfarn ddiannod.[1]

1.7 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu dangos bod yr holl gamau angenrheidiol wedi'u cymryd o ran pob cartref yn ei ardal.

Enghraifft: Nid yw eiddo wedi dychwelyd y ffurflen ganfasio ac nid oes unrhyw beth i awgrymu ei fod yn wag – pa gamau y dylid eu cymryd?

Tra'n cydnabod disgresiwn y Swyddog Cofrestru Etholiadol i bennu'r camau angenrheidiol, mewn achos o'r fath byddai'r Comisiwn yn argymell y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon dwy ffurflen ganfasio a chael canfasiwr drws i ddrws i ymweld â'r eiddo unwaith o leiaf, neu gymryd unrhyw un o'r camau hyn fel sy'n ofynnol hyd nes y ceir ymateb boddhaol. Dylai fod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gofnodion dogfennol o'r cyswllt hwn, megis labeli post sy'n dangos yr hyn a anfonwyd a chofnodion gan y canfasiwr sy'n dangos y dyddiad(au) a'r amser(oedd) yr ymwelwyd â'r eiddo.

Yn ogystal â hyn, mewn amgylchiadau pan na chafwyd unrhyw ymateb, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried edrych ar gofnodion eraill gan ddefnyddio ei bwerau i wneud hynny. Ystyrir y cam hwn ymhellach isod a hefyd yn Rhan D, 'Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb'.

Nid yw'r ddyletswydd a nodir yn Adran 9A o DCyB 1983 yn gyfyngedig i'r cyfnod canfasio blynyddol oherwydd mae'r un mor gymwys i waith y Swyddog Cofrestru Etholiadol drwy gydol gweddill y flwyddyn. Ystyrir y ddyletswydd o ran y broses gofrestru dreigl ymhellach yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

Dyletswydd i annog cyfranogiad etholiadol

1.8 Yn ogystal â'r dyletswyddau a amlinellir uchod, gosoda Adran 69 o'r DGE ddyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gymryd y camau sy'n briodol yn eu barn hwy i annog etholwyr yn eu hardal i gymryd rhan yn y broses etholiadol. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried unrhyw ganllawiau a roddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.[2]

Mae Canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar weithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gael yn Rhan Ff, 'Hygyrchedd a chyfranogiad'.

[1] Adran 63, DCyB 1983.
[2] Adran 69(2), DGE.

Cynllunio'r canfasiad blynyddol

1.9 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fynd ati i gynnal y canfasiad blynyddol ac yn wir ei weithgareddau cofrestru sy'n mynd rhagddynt ar ffurf rheoli prosiect.

1.10 Dylid paratoi cynllun canfasio ac asesu'r risgiau. Dylai'r ddogfennaeth hon nodi sut mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn bwriadu cyflawni ei ddyletswydd a dylai hefyd dynnu sylw at unrhyw broblemau posibl a pha gamau a gymerir i fynd i'r afael â hwy.

1.11 Dylai'r cynllun ddarparu trosolwg o'r modd y bwriedir rheoli'r canfasiad. Dylai gwmpasu meysydd megis pennu rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd, asesu a rheoli risgiau, a dulliau o fonitro a sicrhau ansawdd. Pynciau dangosol yw'r rhain yn unig ac efallai y bydd materion rheoli eraill y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am eu cynnwys yn eu cynllun.

1.12 Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar dasgau gan nodi pa gamau y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu cymryd. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys manylion unrhyw hyfforddiant a ddarperir i staff o dan gyfarwyddyd neu reolaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol, gan gynnwys canfaswyr personol, staff swyddfa dros dro a staff y ganolfan alwadau.

1.13 Drwy gynnal y canfasiad blynyddol, ac yn wir y gweithgareddau cofrestru drwy gydol y flwyddyn, ar ffurf rheoli prosiect darperir fframwaith ar gyfer sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd a dylai ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol.

1.14 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod ganddynt yr yswiriant priodol ar gyfer unrhyw risgiau a nodir, gan ystyried yn benodol gyfrifoldebau cyflogwyr o ran canfaswyr personol.

Y ffurflen ganfasio

1.15 Mae'r ffurflen ganfasio ar ffurf ragnodedig.[3] Fodd bynnag, caiff y Swyddog Cofrestru Etholiadol ganfasio gan ddefnyddio ffurflen i'r un diben.[4]

1.16 Mae'r ffurflen, fel y'i cynhwysir yn y rheoliadau, wedi cael ei phrofi gan ddefnyddwyr ac wedi'i hysgrifennu mewn iaith glir. Gan ei bod yn ffurflen ragnodedig, gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn sicr eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth drwy ddefnyddio'r ffurflen hon. Felly dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried a oes angen iddynt aralleirio a pheidio â dilyn fformat y ffurflen ragnodedig am reswm dilys cyn gwneud hynny.

[3] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Ffurflen Ganfasio) (Cymru a Lloegr) 2006; Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Ffurflen Ganfasio) (Yr Alban) 2006.
[4] Adran 10(4), DCyB 1983.

Atgoffir Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru fod darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg ar sail gyfartal i'r Saesneg. Bydd angen i hyn gael ei adlewyrchu wrth ddatblygu eu ffurflenni canfasio.

Mae ffurflenni canfasio ar gael ar ffurf PDF o wefan y Comisiwn. Mae'r ffurflen ar gyfer Cymru a Lloegr ar gael yn Gymraeg ac yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

1.17 Mae'r Comisiwn wedi cyfieithu ei ffurflenni cofrestru treigl. Gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi copïau o'r rhain i ganfaswyr sy'n gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ. Fel arall, gallai canfaswyr hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o gyfeiriadau'r cartrefi â phreswylwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf er mwyn gallu anfon ffurflen wedi'i chyfieithu atynt.

Argraffu gwybodaeth ar y ffurflen ganfasio ymlaen llaw

Enwau a chyfeiriadau

1.18 Rydym yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn argraffu enwau a chyfeiriadau ar y ffurflen ganfasio ymlaen llaw, a allai helpu i sicrhau gwell ymateb ar gamau cynnar canfasiad.

1.19 Ym marn y Comisiwn mae'r ffurflen ganfasio â'r wybodaeth hon wedi'i hargraffu arni ymlaen llaw yn debygol o fod yn ffurflen i'r un perwyl â'r ffurflen a ragnodir yn y rheoliadau, ac felly mae'n dderbyniol.

Cenedligrwydd

1.20 Unwaith eto, ym marn y Comisiwn mae'r ffurflen ganfasio â'r wybodaeth hon wedi'i hargraffu arni ymlaen llaw yn debygol o fod yn ffurflen i'r un perwyl â'r ffurflen a ragnodir yn y rheoliadau, ac felly mae'n dderbyniol.

1.21 Drwy gadw gwybodaeth am genedligrwydd bydd yn bosibl argraffu'r cenedligrwydd ymlaen llaw ar ffurflenni canfasio'r flwyddyn ganlynol a byddai hefyd o ddefnydd pe byddai'r cymhwyster o ran cenedligrwydd yn newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cofio na ddylid dangos gwybodaeth am genedligrwydd, y tu hwnt i'r defnydd o fanylion dynodi personol G a K, ar y gofrestr.

1.22 Wrth argraffu gwybodaeth am genedligrwydd ar y ffurflen ganfasio ymlaen llaw, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod y termau a ddefnyddir yn adlewyrchu cenedligrwydd yr unigolyn hwnnw. Er bod termau megis 'y Gymanwlad' neu 'Brydeinig, Gwyddelig neu'r Gymanwlad', er enghraifft, yn nodi etholfraint yr unigolyn, nid yw mewn gwirionedd yn dangos ei genedligrwydd, ac felly ni ddylid eu defnyddio.

1.23 O ystyried y gallai unrhyw wall wrth gasglu gwybodaeth am genedligrwydd arwain at asesu'r hawl i fod ar y gofrestr yn anghywir neu nodi'r etholfraint anghywir, mae'n hanfodol bod y wybodaeth am genedligrwydd yn cael ei thrawsgrifio'n gywir o gofnodion y Swyddog

Cofrestru Etholiadol i'r ffurflen ganfasio. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod deiliad y cartref yn cadarnhau bod y wybodaeth a argraffwyd ymlaen llaw yn gywir, drwy lofnodi'r ffurflen ganfasio a ddychwelir.

Argraffu tic yn y blwch 'eithrio' ymlaen llaw

1.24 Ym marn y Comisiwn byddai argraffu ffurflenni canfasio blynyddol ymlaen llaw gan gynnwys dewis blaenorol yr etholwr o ran peidio â chaniatáu i'w fanylion ymddangos ar y gofrestr olygedig drwy gynnwys tic yn y blwch eithrio yn newid y ffurflen ragnodedig yn sylweddol ac yn newid effaith y ffurflen. Mae'r ffaith bod y rhan hon o'r ffurflen yn ei gwneud yn ofynnol i'r etholwr wneud penderfyniad yn ei gwneud yn wahanol o ran sylwedd i'r egwyddor o argraffu enwau, cyfeiriadau a chenedligrwydd ymlaen llaw fel y nodwyd uchod.

1.25 Felly dylai'r blwch eithrio aros yn wag er mwyn i'r etholwr, neu ddeiliad y cartref ar ei ran, ddewis p'un a yw am i'w fanylion ymddangos ar y gofrestr bob blwyddyn ai peidio.

Cynnwys deunydd ychwanegol nad yw'n ddeunydd etholiadol ar neu gyda ffurflenni cofrestru etholiadol

1.26 Wrth ddosbarthu ffurflenni cofrestru etholiadol, o bryd i'w gilydd gellir gofyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnwys deunydd ychwanegol nad yw'n ymwneud â materion etholiadol. Er mai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n penderfynu a ddylid cynnwys deunydd o'r fath, ym marn y Comisiwn ni ddylid cynnwys unrhyw ddeunydd ychwanegol gyda ffurflenni cofrestru onid yw'r deunydd hwnnw yn uniongyrchol gysylltiedig â materion etholiadol, megis taflen esboniadol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Comisiwn.

1.27 Rhaid dychwelyd ffurflen ganfasio yn unol â'r gyfraith ac ni ddylid ei chyfuno â deunydd nad yw'n ddeunydd etholiadol nad yw'n destun gofyniad o'r fath. Gallai cynnwys unrhyw ddeunydd ychwanegol gyda ffurflen ganfasio cofrestru etholiadol beri'r risg o fynd yn groes i'r ddeddfwriaeth sy'n atal y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'i staff rhag defnyddio unrhyw wybodaeth a geir ar y gofrestr lawn onid yw hynny'n unol â'r rheoliadau.[5]

Pleidleisio absennol

1.28 Gellir gofyn am ffurflen gais i fwrw pleidlais absennol ar y ffurflen ganfasio. Gellir rheoli'r ceisiadau hyn mewn sawl ffordd: anfon ffurflenni cais yn barhaus pan ddychwelir ffurflen ganfasio sy'n gofyn am hynny ac y caiff ei phrosesu; neu anfon ffurflenni cais at bawb sydd wedi gofyn am un naill ai ar ddiwedd y canfasiad neu ar un adeg benodol neu fwy yn ystod a hyd at ddiwedd y canfasiad.

1.29 Os na chaiff ceisiadau eu hanfon cyn gynted ag y derbynnir y cais, ac os caiff etholiad ei alw wedyn, dylai'r ceisiadau pleidleisio absennol ar gyfer yr ardal honno gael eu hanfon cyn gynted â phosibl.

[5] Rheoliad 94(3), RhCyB 2001.

1.30 Dylid anfon ffurflenni cais pleidleisio absennol newydd at unrhyw bleidleiswyr absennol presennol sydd wedi nodi bod eu henw wedi newid ar y ffurflen ganfasio a ddychwelwyd er mwyn cael llofnod newydd ar gyfer y cofnod o fanylion adnabod personol.

2 Cynnal y canfasiad

Dosbarthu ffurflenni canfasio

2.1 Yn ystod y canfasiad blynyddol, bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel arfer yn cysylltu â chartrefi yn eu hardal gofrestru y tro cyntaf drwy anfon ffurflen gofrestru i gartrefi drwy'r post neu drwy ei dosbarthu â llaw. Er nad yw Adran 9A o DCyB 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i anfon ffurflen gofrestru fel y cam cyntaf, yn ymarferol dyma fydd yn digwydd fel arfer.

2.2 Un o'r pethau y bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei ystyried wrth lunio ei gynllun canfasio yw sut y caiff y ffurflenni canfasio eu dosbarthu.

Drwy'r post

2.3 Mae nifer fawr o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn dosbarthu eu ffurflenni canfasio cychwynnol ac atgoffa drwy'r post ac yna gall etholwyr ddychwelyd y ffurflenni drwy ddefnyddio'r cyfleuster rhadbost.

2.4 Mae'r gostyngiadau a gynigir gan Post Brenhinol a darparwyr gwasanaethau eraill yn golygu y gallai fod yn fwy cost effeithiol i ddosbarthu ffurflenni cychwynnol ac atgoffa drwy'r post yn hytrach na chyflogi canfaswyr i wneud hynny.

2.5 Fodd bynnag, mae perfformiad gwasanaeth post y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Swyddog Cofrestru Etholiadol. At hynny, ni chaiff gwybodaeth am newidiadau i statws eiddo ei dwyn ynghyd gan ddarparwyr gwasanaethau post ac ni chaiff y Swyddog Cofrestru Etholiadol ei hysbysu.

Drwy ganfaswyr

2.6 Mae llawer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio staff canfasio i ddosbarthu'r ffurflenni canfasio cychwynnol a/neu atgoffa â llaw, ac yna gall etholwyr eu dychwelyd gan ddefnyddio cyfleuster rhadbost. Mantais hyn yw bod canfaswyr yn dod yn gyfarwydd â'u 'cylch' canfasio cyn cysylltu â phreswylwyr yn ystod y broses o wneud ymholiadau o dŷ i dŷ. Hefyd, gallant hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o unrhyw newidiadau perthnasol i'r defnydd o eiddo.

2.7 Gall defnyddio canfaswyr i ddosbarthu ffurflenni fod yn drafferthus i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, gan fod yn rhaid recriwtio, hyfforddi a goruchwylio canfaswyr. Hefyd, gall fod yn ddrutach na defnyddio gwasanaeth post, gan fod unrhyw gyfle i gael gostyngiad yn cael ei golli.

Dosbarthu a chasglu ffurflenni yn bersonol

2.8 Gall rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddewis defnyddio staff canfasio i ddosbarthu a chasglu ffurflenni cofrestru. Os felly, byddai canfaswyr yn galw ymhob eiddo i gasglu manylion etholwyr cymwys ar garreg y drws neu yn gadael y ffurflen i'w chasglu'n ddiweddarach. Fel arfer byddai

canfaswyr o'r fath hefyd yn gyfrifol am baratoi dogfennaeth i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ddiweddau'r cofnodion ar ôl cwblhau'r canfasiad.

2.9 Gallai system o'r fath sicrhau cryn gywirdeb ond efallai nad dyma'r ffordd fwyaf cost effeithiol o fynd ati i ddosbarthu ffurflenni canfasio yn gychwynnol. Fodd bynnag, mae ymholiadau o ddrws i ddrws yn un o'r camau a restrir yn Adran 9A, a gwneir hyn yn aml i fynd ar drywydd ffurflenni nas dychwelwyd ar gamau diweddarach y canfasiad.[6] Ystyrir gwneud ymholiadau o ddrws i ddrws ymhellach isod.

2.10 Rhaid i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol benderfynu ar yr hyn sydd orau i'w ardal sy'n ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth. Gall amgylchiadau cymdeithasol neu ddaearyddol effeithio ar y penderfyniad hwn: er enghraifft, gallai fod yn fwy addas dosbarthu ffurflenni drwy'r post mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth ond gallai fod yn well dosbarthu'r ffurflen gofrestru â llaw mewn ardaloedd trefol â phoblogaeth uchel. Ymhob achos dylid cynnwys amlen radbost i'w dychwelyd.

Anfon ffurflen fwy nag unwaith

2.11 Mae'r camau yn Adran 9A o DCyB 1983 yn cyfeirio at anfon y ffurflen ganfasio fwy nag unwaith i unrhyw gyfeiriad. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn o'r farn bod hyn yn angenrheidiol bob tro: er enghraifft, ni fyddai angen gwneud hyn os cwblhawyd ffurflen yn gywir a'i dychwelyd, ac nad oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw reswm dros gredu bod yr amgylchiadau wedi newid ers cael y ffurflen ganfasio wreiddiol.

2.12 Os na ddychwelwyd y ffurflen ganfasio, os dychwelwyd un ond bod y wybodaeth yn anghyflawn, neu os oes rheswm arall neu dystiolaeth arall sy'n gwneud i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol amau'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen, dylai ystyried pa gamau eraill sy'n angenrheidiol: er enghraifft, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon cais am ragor o wybodaeth i'r cyfeiriad, gwneud ymholiad o dŷ i dŷ neu edrych ar gofnodion y cyngor. Ystyrir y camau posibl eraill ymhellach isod.

Ffurflenni atgoffa

2.13 Mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig pan anfonwyd sawl ffurflen ganfasio i gyfeiriad ond na fu unrhyw ymateb, gall fod yn ddefnyddiol anfon ffurflen atgoffa gyda llythyr gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn egluro bod rhwymedigaeth gyfreithiol ynghlwm wrth gwblhau'r ffurflen ganfasio[7] ac yn nodi canlyniadau posibl peidio ag ymateb a pheidio â chofrestru, megis erlyniad a dirwy, difreiniad ac ati.

2.14 Dylid dosbarthu ffurflenni atgoffa ar adeg sy'n osgoi dychwelyd nifer fawr o ffurflenni dyblyg ond sy'n ddigon agos at y dyddiad dosbarthu gwreiddiol fel bod y broses gofrestru yn parhau i fod ym meddyliau deiliaid cartrefi a'u bod yn ymateb. Hefyd, dylid anfon ffurflenni atgoffa yn ddigon cynnar er mwyn

[6] Adran 10(5), DCyB 1983.
[7] Rheoliad 23(3), RhCyB 2001; Rheoliad 23(2), RhCyB (yr Alban) 2001.

osgoi sefyllfa lle mae canfaswyr yn ymweld â chartrefi sydd newydd gael ffurflen atgoffa a chais i ddychwelyd eu ffurflenni; er unwaith eto ni ddylai'r bwlch rhwng y ffurflen atgoffa a'r ymweliad fod mor hir fel bod deiliaid cartrefi wedi anghofio yr anfonwyd ffurflen atynt.

2.15 Pan na fydd ffurflenni atgoffa yn sicrhau ymateb o hyd, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedyn ystyried cymryd camau eraill fel y bo'n angenrheidiol, megis gwneud ymholiad o dŷ i dŷ neu edrych ar gofnodion y cyngor, er mwyn gweld a oes rhywun yn byw mewn eiddo penodol ac a oes unrhyw un yn y cyfeiriad hwnnw yn gymwys i fod ar y gofrestr etholiadol.

Gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ

2.16 Mae'r camau a nodir yn Adran 9A o DCyB 1983 yn cynnwys gwneud y fath ymholiadau o dŷ i dŷ fel y bo'n angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol i gynnal y gofrestr. Mae Adran 10(5) o DCyB 1983 yn caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud ymholiadau o dŷ i dŷ mewn perthynas â'r canfasiad.

2.17 Yn ôl geiriad y cam hwn dylai ymholiadau o dŷ i dŷ gael eu gwneud fwy nag unwaith. O ganlyniad, os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwneud ymholiad o dŷ i dŷ ac o'r farn bod digon o wybodaeth wedi ei rhoi o ran y ddyletswydd o dan Adran 9 o DCyB 1983 y tro cyntaf, nid oes angen gwneud rhagor o ymholiadau.

2.18 Gall Swyddog Cofrestru Etholiadol fod o'r farn ei bod yn briodol peidio â gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ nes i'r holl gamau eraill gael eu cymryd. Fodd bynnag, os na chafwyd unrhyw ymateb ar y cam hwn a bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol o'r farn na chafwyd digon o wybodaeth i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswydd o dan Adran 9 o DCyB 1983, yna dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud ymholiadau o dŷ i dŷ.

2.19 Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau sy'n peri i Swyddog Cofrestru Etholiadol beidio â chanfasio cyfeiriad penodol, er enghraifft mewn achos eithriadol lle, am resymau diogelwch personol, nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o'r farn ei bod yn ddiogel anfon canfasiwr personol. Wrth wneud penderfyniad o'r fath, byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu dangos yr ystyriwyd yr holl opsiynau a byddai angen iddo allu cyfiawnhau unrhyw benderfyniadau o'r fath fesul achos.

Gweithio gyda chanfaswyr

2.20 Mae'r ddyletswydd i wneud ymholiadau o dŷ i dŷ lle y bo'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob preswylydd cymwys wedi'i gofrestru a bod y rhai nad ydynt yn gymwys i'w cynnwys ar y gofrestr mwyach yn cael eu dileu yn golygu bod canfaswyr yn chwarae rhan hanfodol yn y tîm cofrestru etholiadol.

2.21 Efallai mai dim ond gyda'r cymorth y gallant ei gael yn ystod ymweliad gan ganfasiwr personol y bydd llawer o etholwyr, yn enwedig y rhai ag anableddau neu anawsterau llythrennedd, yn gallu cofrestru i bleidleisio. Yn ogystal â chyflawni ei ddyletswyddau yn unol â deddfwriaeth etholiadol, mae

canfasio unrhyw eiddo nad yw'n ymateb yn bersonol yn helpu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd) drwy ddarparu gwasanaeth i'r rhai na allant gwblhau a dychwelyd ffurflen drwy'r post.

2.22 Mae'n bosibl bod etholwyr eraill wedi bod yn brysur neu wedi anghofio cwblhau a dychwelyd y ffurflen ganfasio, ac mae ymweliad personol, yn wahanol i ffurflen drwy'r post, yn fwy anodd i'w anwybyddu neu ei ystyried yn y dyfodol. Mae gan ganfaswyr ran bwysig i'w chwarae hefyd i nodi eiddo gwag, eiddo nad yw'n bodoli neu eiddo sy'n cael ei adeiladu, yn ogystal â nodi eiddo lle nad yw'r un preswylydd yn gymwys i gofrestru.

2.23 At hynny, mewn sawl achos canfaswyr yw un o'r unig ffyrdd o gael cyswllt wyneb yn wyneb rhwng awdurdodau lleol a'u preswylwyr. Felly gall canfasiwr effeithiol fod yn llysgennad i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r awdurdod lleol sydd wedi'i benodi, ac mae mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r broses ddemocrataidd ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses honno.

2.24 Am yr holl resymau hyn, mae felly yn hanfodol bod y tîm canfasio wedi'i hyfforddi'n dda a'i fod yn cael ei reoli'n effeithiol.

Asesu'r 'cylchoedd' canfasio

2.25 Bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried sut y gellir pennu'r maint gorau posibl ar gyfer ardaloedd canfasio, neu 'gylchoedd', wrth lunio eu cynllun canfasio, oherwydd gall effeithio ar gyfradd ymateb gyffredinol y canfasiad.

2.26 Mewn egwyddor, bydd ardal ganfasio lai o faint sy'n cynnwys llai o gartrefi i ymweld â hwy yn sicrhau cyfradd ymateb uwch oherwydd bydd canfaswyr yn gallu ymweld â chartrefi nad ydynt wedi ymateb yn amlach yn ystod y cyfnod canfasio. Hefyd, os cedwir yr ardal a ddyrennir i ganfaswyr yn gymharol fach, pan fydd canfasiwr penodol yn tanberfformio am ba reswm bynnag bydd effaith hyn ar gyfradd ymateb gyffredinol y canfasiad yn gyfyngedig.

2.27 Pan gyflogir nifer fawr o ganfaswyr, fodd bynnag, mae'r broses o ddyrannu ardaloedd llai yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio mwy o adnoddau o ran eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio.

Recriwtio canfaswyr

2.28 Ar gam cynnar o'r broses o gynllunio canfasiad, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol bennu sut y defnyddir canfaswyr ac, o ganlyniad, faint o ganfaswyr y mae'n debygol y bydd eu hangen. Yn benodol, bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod digon o amser ar gael yn ystod y broses o recriwtio a hyfforddi canfaswyr. Dylid cael arweiniad gan adran adnoddau dynol yr awdurdod sy'n eu penodi o ran hyd posibl unrhyw broses recriwtio.

2.29 Gan fod y canfasiad yn digwydd bob blwyddyn, gallai'r rhai a gyflogwyd fel canfaswyr mewn blynyddoedd blaenorol fod yn ffynhonnell allweddol o ran recriwtio canfaswyr. Dylai perfformiad canfaswyr gael ei fonitro'n flynyddol ac ni ddylid defnyddio unrhyw ganfaswyr nad oedd eu perfformiad yn y gorffennol yn foddhaol eto.

2.30 Hefyd, dylid cofio bod gan yr awdurdod lleol sy'n penodi canfaswyr rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol y staff angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau statudol.[8]

2.31 Ym marn rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol dylid cyflogi canfaswyr yn yr un ardal mewn blynyddoedd dilynol, gan felly feithrin gwybodaeth fanwl o'u 'cylchoedd'. Mae eraill o'r farn y gall newid yr ardaloedd a ddyrennir fod o fudd oherwydd efallai y bydd angen i ganfaswyr fod yn fwy effro mewn ardal anghyfarwydd. Mae'r ddau ddull o weithredu a nodir uchod yn dderbyniol ac felly dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried canlyniadau'r ddau ac unrhyw amgylchiadau lleol cyn cadarnhau'r staff a ddyrennir.

2.32 Os oes angen canfaswyr newydd, ymhlith y ffynonellau recriwtio posibl mae:

- Staff a gyflogir gan y Swyddog Canlyniadau i helpu gyda'r etholiad, gan gynnwys staff gorsafoedd pleidleisio, staff pleidleisiau post a staff cyfrif pleidleisiau.
- Rhestr aros o ddarpar ganfaswyr a ddatblygwyd dros amser.
- Gwybodaeth a roddwyd ar wefan y cyngor neu wefan y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu a anfonwyd dros yr e-bost.
- Cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr.
- Hysbysebion o amgylch swyddfeydd ac adrannau eraill o'r cyngor lleol.
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau cymunedol lleol.
- Hysbysebion swydd yn y Ganolfan Gwaith leol.
- Hysbysebion mewn papurau newydd lleol.
- Ar lafar: efallai y bydd canfaswyr eu hunain yn gwybod am bobl addas eraill a fyddai'n barod i weithio fel canfaswyr. Mewn rhai ardaloedd gall fod yn briodol ystyried talu 'ffi gyflwyno' i unrhyw ganfasiwr sy'n cyflwyno un arall i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

2.33 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol weithio gyda'u hadran adnoddau dynol ar gam cynnar yn y broses er mwyn sicrhau bod unrhyw ymarfer recriwtio yn cydymffurfio â'r polisïau recriwtio a dethol ac amrywiaeth perthnasol, a chadarnhau'r polisïau cyflogaeth perthnasol. Efallai y bydd angen gofyn i ddarpar gyflogeion gwblhau ffurflen gais ffurfiol. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol lunio disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer canfaswyr, a fydd yn helpu i baratoi contract cyflogaeth ar gyfer y canfasiwr. Ym marn y Comisiwn dylai fod gan bob canfasiwr dros dro gontract cyflogaeth.

[8] Adran 52(4), DCyB 1983.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu templed o ddisgrifiad swydd canfasiwr, y gellir ei lwytho i lawr o wefan y Comisiwn.

2.34 Yn ogystal â'r manylion personol arferol, mae'n bwysig cael y wybodaeth ganlynol am ddarpar ganfaswyr:

- pryd y byddant ar gael i weithio, ac yn benodol a fyddant ar gael gyda'r nos a/neu ar benwythnosau
- a oes ganddynt ffordd o deithio neu a allent gael gafael ar ffordd o deithio (ac, yn achos gyrwyr car, fod ganddynt yswiriant car priodol at ddefnydd busnes)
- eu gallu i weithio yn yr awyr agored, ymhob tywydd
- manylion unrhyw gollfarnau (p'un a ydynt wedi'u disbyddu ai peidio)
- eu sgiliau rhyngbersonol

2.35 Dylid cofnodi unrhyw sgiliau iaith dramor sydd gan ddarpar ganfaswyr oherwydd gallai hyn fod yn ddefnyddiol i benderfynu ym mha ardal y dylid eu lleoli, yn enwedig pan fo ardaloedd yn yr ardal gofrestru lle ceir nifer sylweddol o breswylwyr sy'n siarad iaith benodol.

2.36 Gall fod yn ddefnyddiol gofyn i ddarpar ganfaswyr nodi'r hyn fyddai'n well ganddynt o ran ymhle yn yr ardal gofrestru yr hoffent weithio. Yn benodol, gall fod o fudd lleoli canfaswyr mewn ardaloedd sy'n agos i'w cartref neu weithle oherwydd gallai hyn olygu eu bod yn gallu ymweld â'r ardal ganfasio yn amlach ac ar adegau mwy amrywiol na phe byddent yn gorfod teithio cryn bellter i gyrraedd yno. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo'r canfasiad yn cyrraedd y diwedd a bod nifer y cartrefi sy'n weddill yn llai; gall fod yn haws annog canfaswyr 'lleol' i barhau ag ymholiadau o dŷ i dŷ nag eraill y gallai'r amser teithio a'r gost olygu fel arall ei bod yn aneconomaidd iddynt barhau.

2.37 Ar y cyfan bydd preswylwyr lleol yn gyfarwydd â'r gymuned leol. Gallai hyn, yn syml, fod yn gyfystyr â mwy o wybodaeth o'r ddaearyddiaeth leol, a fyddai ynddo'i hun o fudd wrth gynllunio llwybr effeithlon, ond gallai hefyd olygu y bydd preswylwyr eraill yn ymateb yn gadarnhaol wrth ryngweithio â rhywun maent yn ei adnabod, naill ai drwy gwblhau ffurflen gofrestru neu, er enghraifft, drwy adael canfasiwr i mewn i floc o fflatiau.

2.38 Gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ganfod ei bod yn haws recriwtio canfaswyr ar gyfer rhai ardaloedd nag eraill. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ymwybodol o unrhyw ardaloedd problematig yn sgîl profiad blaenorol a gallent ddymuno cynnal ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu gyda phreswylwyr lleol ar gyfer yr ardaloedd penodol hynny. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol siarad â swyddogion tai lleol neu swyddogion byrddau rheoli tai lleol neu ddarparwyr tai lleol eraill er mwyn gweld a oes unrhyw staff tai lleol neu staff eraill yn yr ardal benodol y gellid eu gwahodd i wneud cais i fod yn ganfasiwr ar ran y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Gellid defnyddio'r cysylltiadau hyn a rhai tebyg hefyd lle y bo'n bosibl i helpu i drefnu bod hysbysebion recriwtio yn cael eu gosod mewn ardaloedd cymudol.

Hyfforddi canfaswyr

2.39 Mae'n hanfodol rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig manwl i bob aelod o staff sy'n canfasio, sy'n cwmpasu pob agwedd ar y broses ac sy'n tynnu sylw at y mathau o anawsterau y byddant yn debygol o ddod ar eu traws.

2.40 Un o'r camau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal cofrestrau o etholwyr seneddol a llywodraeth leol a nodir yn Adran 9A o DCyB 1983 yw hyfforddi unigolion sydd o dan gyfarwyddyd neu reolaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd.

2.41 Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hyfforddi'r holl ganfaswyr bob blwyddyn. Mewn rhai achosion, gallai canfaswyr profiadol gymryd rhan mewn sesiwn 'gloywi' fer, gyda staff newydd yn cymryd rhan mewn sesiwn fanylach. Fel arall, gallai fod yn ddefnyddiol i gymysgu'r rhai profiadol â'r rhai llai profiadol a darparu hyfforddiant parhaus ar ffurf mentora. Pa drywydd bynnag a ddilynir, bydd angen ystyried hyd ac amseriad sesiynau hyfforddi yn ofalus. Efallai y bydd angen cynnig taliad i sicrhau bod pob canfasiwr yn bresennol. Hefyd, gall fod yn angenrheidiol trefnu sesiynau gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn sicrhau bod pob canfasiwr yn gallu bod yn bresennol.

2.42 Cyn cymryd rhan mewn sesiwn friffio, dylai pob canfasiwr gael cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'w alluogi i werthfawrogi pwysigrwydd ei benodiad yn llawn ac i feithrin dealltwriaeth o'i ddyletswyddau canfasio. Gallai'r cyfarwyddiadau hyn gynnwys:

- amlinelliad o'r dyletswyddau sylfaenol
- amserlen ar gyfer y canfasiad
- rheolau a rheoliadau ar fod yn gymwys i gofrestru
- nodiadau ar y ffordd gywir o gwblhau'r ffurflen ganfasio a chasglu'r wybodaeth ofynnol
- trosolwg o'r weithdrefn ar gyfer carreg y drws, gan gynnwys sut i gyfarch deiliad y cartref mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol a sut i gael y wybodaeth berthnasol
- nodiadau ar etholwyr categori arbennig
- canllawiau ar ymdrin â deiliaid cartrefi anodd
- cyngor ar gwblhau gwaith papur
- canllawiau ar y dillad priodol i'w gwisgo a sut y dylid ymddangos, o ran adlewyrchu ei rôl fel un o gyflogeion y Swyddog Cofrestru Etholiadol a gwisgo'n addas ar gyfer pob math o dywydd
- enghreifftiau o ffurflenni canfasio ac unrhyw waith papur perthnasol arall
- polisi a gweithdrefnau gweithio ar ben eich hun
- ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch a chanllawiau arnynt
- canllawiau ar amrywiaeth
- unrhyw wybodaeth leol berthnasol arall

2.43 Dylai'r pecyn gwybodaeth hwn gael ei ddilyn gan sesiynau briffio a ddylai gwmpasu ac ehangu ar y cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Dylai'r cyfle i

ganfaswyr ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt gael ei gynnig yn ystod unrhyw sesiwn friffio.

2.44 Bydd angen paratoi deunyddiau ar gyfer sesiynau hyfforddi yn ofalus. Dylid ystyried defnyddio enghreifftiau, chwarae rôl ac ymarferion eraill sy'n cynnwys canfaswyr.

2.45 Mae'n bwysig cofio anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig wrth baratoi cyfarwyddiadau ac wrth ddarparu sesiynau hyfforddi. Os rhoddir deunyddiau wedi'u cyfieithu i ganfaswyr, byddai'n ddefnyddiol sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r cynnwys ac yn deall sut y dylid defnyddio deunyddiau o'r fath. Yn ogystal, pan fydd canfaswyr yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn, byddai'n ddoeth dangos sut mae'r gwasanaeth yn gweithio cyn i ganfaswyr orfod ei ddefnyddio mewn sefyllfa go iawn.

2.46 Efallai y bydd amgylchiadau lleol penodol yr ardaloedd lle y lleolir y canfaswyr yn ei gwneud yn ofynnol i drafod materion penodol eraill yn y sesiynau hyfforddi: er enghraifft, bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn ardaloedd gwledig ddarparu canllawiau gwahanol i'r rhai mewn ardaloedd trefol; a bydd angen i ardaloedd â phoblogaethau penodol megis myfyrwyr adlewyrchu hyn yn eu sesiynau briffio.

2.47 Dylid cyfarwyddo canfaswyr i ofyn a oes unrhyw un sy'n 16 neu'n 17 oed yn y cyfeiriad ymhob cartref lle y gwneir ymholiadau o dŷ i dŷ. Gall fod yn ddefnyddiol ei gwneud yn ofynnol i ganfaswyr gofnodi'r ateb ar y ffurflen a gwblheir gyda deiliad y cartref hyd yn oed pan nad oes unrhyw un sy'n 16 neu'n 17 oed er mwyn dangos i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod y cwestiwn wedi'i ofyn.

2.48 Dylid pwysleisio pwysigrwydd cofnodi dyddiad ac amser pob achlysur pan fydd canfasiwr yn ymweld ag eiddo yn y sesiwn friffio. Gellir defnyddio'r cofnod hwn fel tystiolaeth o'r camau y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi'u cymryd fel rhan o'i ddyletswydd i gynnal y gofrestr.

2.49 Ar ddiwedd y sesiwn hyfforddi, dylid annog canfaswyr i gwblhau ffurflen werthuso sy'n dangos pa mor effeithiol oedd yr hyfforddiant yn eu barn hwy ac yn nodi beth y gellid ei wella yn y blynyddoedd i ddod. Fel arall, neu yn wir yn ogystal â hynny, gellid gofyn i ganfaswyr gwblhau gwerthusiad o'r hyfforddiant ar ddiwedd y canfasiad, pan fyddant mewn sefyllfa well i werthuso perthnasedd a chymhwysedd yr hyfforddiant.

Goruchwylio a chymell canfaswyr

2.50 Pan gyflogir nifer fawr o ganfaswyr, gall fod yn ddefnyddiol penodi goruchwylwyr i gynnig cyngor ac arweiniad nid yn unig o fewn oriau gwaith ond hefyd y tu allan i oriau gwaith arferol. Dylai goruchwylwyr fonitro perfformiad eu canfaswyr er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn briodol ac ar amser. P'un a gaiff goruchwylwyr eu defnyddio ai peidio, dylid monitro canfaswyr yn ofalus.

2.51 Fel rhan o'r gwaith o oruchwylio a monitro canfaswyr, gallai fod yn fuddiol ystyried nifer o weithgareddau. Un cam y gellid ei gymryd fyddai cymharu cyfraddau ymateb 'cylch' pob canfasiwr â ffurflenni'r flwyddyn flaenorol ar yr un adeg yn ystod y canfasiad. Pan fo'n is o lawer, dylid cysylltu â'r canfasiwr er mwyn gweld a oes unrhyw broblemau nas rhagwelwyd yn yr ardal ganfasio neu a yw'r canfasiwr yn methu â gwneud y gwaith sy'n ofynnol.

2.52 Gall hefyd fod yn ddefnyddiol cymharu cyfraddau ymateb 'cylchoedd' tebyg â'i gilydd, yn enwedig pan ddefnyddir canfaswyr i ddosbarthu ffurflenni canfasio, oherwydd gallai gwahaniaeth mawr mewn ymateb ddynodi na ddosbarthwyd ffurflenni canfasio mewn ardal benodol eto.

2.53 Dylai canfaswyr gael digon o amser i gynnal canfasiad personol effeithiol a dylid eu hannog i ddefnyddio eu hamser yn effeithiol. Un ffordd bosibl o helpu canfaswyr i amserlennu eu gweithgareddau fyddai cynnwys dyddiadau ar y cam gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ a'i gwneud yn ofynnol i ganfaswyr ddychwelyd ffurflenni canfasio wedi'u cwblhau i'r swyddfa gofrestru etholiadol erbyn y dyddiadau hynny.

2.54 Os na ddychwelir ffurflenni yn unol â'r amserlen, dylid cysylltu â'r canfasiwr cyn gynted â phosibl i ofyn pam na ddilynir y trefniadau. Gall hyn helpu i osgoi sefyllfa lle mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darganfod yn ddiweddarach yn y cyfnod canfasio na chwblhawyd nifer fawr o ffurflenni canfasio. Gallai nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am fethu â dychwelyd ffurflenni: gallai fod oherwydd nad yw canfasiwr wedi llwyddo i ganfasio oherwydd salwch neu anaf; neu am ei fod wedi oedi cyn dechrau'r gwaith gan olygu na fydd yn gallu ei gwblhau mewn modd amserol. Er nad yw absenoldeb heb awdurdod neu ddiswyddiad sydyn canfasiwr o fewn rheolaeth Swyddog Cofrestru Etholiadol, drwy ddod yn ymwybodol o'r sefyllfa ar gam cynnar gellir cymryd camau yn gynt i leihau'r effaith ar gyfradd ddychwelyd y canfasiad.

2.55 Gall fod yn fuddiol i ganfaswyr, yn enwedig y rhai amhrofiadol, gyflwyno eu hychydig ddiwrnodau cyntaf o waith i'r swyddfa gofrestru etholiadol neu ei roi i'w goruchwyliwr er mwyn gallu nodi unrhyw wallau neu gamddealltwriaeth a'u cywiro cyn i'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei wneud.

2.56 Mae'n ddymunol cymryd camau ymyrryd cynnar mewn perthynas ag unrhyw ganfasiwr a allai fod yn tanberfformio. Er mwyn gallu cyflawni hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod canfaswyr, unrhyw oruchwylwyr a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyfathrebu'n rheolaidd.

2.57 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried y ffordd orau o gymell eu tîm canfasio, y bydd yn rhaid iddo'n aml weithio mewn amodau oer, gwlyb a thywyll, ac ymdrin â phobl anodd ar adegau. Mae perfformiad canfaswyr yn ganolog i gyflawnrwydd a chywirdeb y gofrestr etholiadol ac felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cymell i weithio hyd eithaf eu gallu. Er bod digon o gyflog yn bwysig wrth gwrs, dylid hefyd ystyried dulliau eraill o annog a chymell staff nad ydynt yn rhai ariannol.

Er na fyddant yn apelio i bob canfasiwr efallai, ymhlith yr enghreifftiau o wobrwyon cost isel nad ydynt yn ariannol y mae'n werth eu hystyried mae:

Gofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu uwch swyddog arall groesawu canfaswyr i'r tîm
Gellid hwyluso hyn, er enghraifft, drwy drefnu i'r tîm canfasio cyfan gasglu ffurflenni cofrestru'r un pryd, gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwneud cyflwyniad byr ar y dyletswyddau dan sylw. Ni fyddai hyn yn disodli sesiwn hyfforddi ond byddai'n gyfle arall i dynnu sylw at y pwyntiau allweddol, a byddai'n dangos i ganfaswyr bod uwch aelodau o staff yn cymryd yr ymarfer o ddifrif.

Sicrhau bod canfaswyr yn gwybod sut maent yn perfformio
Bydd rhoi adborth rheolaidd ar ganran y cartrefi sy'n cwblhau ffurflenni cofrestru yn galluogi canfaswyr i weld y cynnydd a wneir ac olrhain eu perfformiad eu hunain. Gallai'r adborth hwn gael ei anfon yn uniongyrchol at ganfaswyr neu ei rannu drwy oruchwylwyr lle y'u defnyddir. Ar ddiwedd y canfasiad blynyddol, dylai canfaswyr gael adborth yn unigol ac fel tîm ar eu perfformiad: os cyflawnwyd canlyniad da, dylent gael gwybod a dylid diolch iddynt am eu hymdrechion.

Rhoi tystysgrifau o gyflawniad i'r canfaswyr sydd wedi perfformio orau
Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol lofnodi tystysgrifau o'r fath a'u cyflwyno'n bersonol, gan gydnabod eu gwaith da. Nid oes rhaid i'r perfformiad gorau fod yn gyfystyr â chyflawni'r gyfradd ymateb orau ond dylai ystyried ffactorau eraill, megis yr ardal benodol a ganfasiwyd neu unrhyw ymdrechion arbennig a wnaed gan ganfaswyr i sicrhau bod preswylwyr yn cofrestru.

Rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiant y tîm canfasio
Un ffordd o wneud hyn fyddai cynnwys stori yng nghylchgrawn mewnol y staff neu ar fewnrwyd y cyngor sydd wedi penodi'r canfaswyr. Gallai hyn hefyd godi proffil cofrestru etholiadol ymhlith staff eraill a gyflogir gan yr awdurdod, a allai ystyried gwneud cais i fod yn ganfaswyr yn y dyfodol.

2.58 Argymhellir y dylai staff y Swyddog Cofrestru Etholiadol ganfasio rhywfaint eu hunain er mwyn cael profiad ymarferol a meithrin dealltwriaeth o'r agweddau anodd a boddhaol ar wneud hynny. Gall hyn fod yn amhrisiadwy wrth lunio a darparu hyfforddiant a hefyd wrth oruchwylio a chymell canfaswyr yn y dyfodol.

Cynorthwyo'r tîm canfasio yn ystod y canfasiad

2.59 Pan fo'n bosibl, dylai canfaswyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am statws y cartrefi yn eu hardal ganfasio: er enghraifft, os yw cartref wedi cwblhau a dychwelyd ffurflen gofrestru, dylid hysbysu'r canfasiwr cyn gynted â phosibl er mwyn ei atal rhag ymweld â'r cartref yn ddiangen ac amharu ar ddeiliad y cartref heb reswm.

2.60 Efallai y bydd adegau pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn ymddwyn mewn ffordd anodd, er enghraifft drwy fod yn anghwrtais i ganfaswyr sy'n galw, neu

drwy wrthod rhoi unrhyw wybodaeth iddynt, er gwaethaf y ffaith eu bod yn deall bod y canfasiwr dan sylw yn gwbl ddilys a bod rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth gofrestru. Pan na fydd hyn yn gyfystyr ag ymddygiad sarhaus neu fygythiol, a fyddai fel arfer yn cael ei ystyried yn fater iechyd a diogelwch ac o bosibl yn arwain at ymchwiliad gan yr heddlu, gallai fod o fudd i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu uwch swyddog perthnasol arall yn y cyngor sydd wedi penodi'r canfasiwr baratoi llythyr y gellir ei anfon i'r preswylwyr dan sylw pan fydd y canfasiwr yn hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o sefyllfa o'r fath.

2.61 Dylai unrhyw lythyr o'r fath egluro bod y canfasiwr yn cyflawni dyletswydd swyddogol ac y gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gyfreithlon, a dylai nodi canlyniadau posibl peidio â chydymffurfio a pheidio â chofrestru, sef y gallent gael dirwy o hyd at £1,000[9] ni fyddant yn gallu pleidleisio a gallai fod yn fwy anodd iddynt gael credyd. Mae gohebiaeth o'r fath yn dangos i'r preswylwyr a'r canfaswyr bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cymryd y broses o gofrestru etholwyr o ddifrif a'i fod yn barod i gefnogi ei staff.

2.62 Rhaid pwysleisio i ganfaswyr y dylent wneud nodiadau gofalus o unrhyw sgyrsiau â deiliaid cartrefi sydd wedi ymddwyn mewn ffordd anodd, gan nodi hefyd enw'r unigolyn dan sylw (os yw'n hysbys) a disgrifiad cryno ohono; yn amlwg byddai'n amhriodol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon gohebiaeth fel y'i disgrifir uchod os mai'r unig fanylion a roddwyd am y sgwrs oedd i'r 'ddynes ddweud nad oedd ganddi ddiddordeb' neu i ddeiliad y cartref 'wrthod ateb y drws'.

Taliadau a lwfansau staff

2.63 Bydd y ffordd y caiff y canfasiad ei drefnu yn effeithio ar benderfyniadau yn ymwneud â thalu staff, gyda thaliadau yn adlewyrchu cwmpas a graddau'r gwaith a wneir. Mae talu canfaswyr yn fater i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol ei ystyried yn unigol a dylai benderfynu ar yr hyn sy'n briodol i'w ardal.

2.64 Mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn talu ffi sefydlog i bob canfasiwr am wneud y gwaith yn unig, waeth sut mae wedi perfformio. Os gwneir hyn, gallai'r taliad naill ai fod yr un fath ar gyfer pob canfasiwr heb ystyried yr ardaloedd y'u lleolwyd ynddynt neu gallai fod yn gysylltiedig â nifer yr etholwyr neu eiddo yn yr ardaloedd hynny. Gallai'r math cyntaf o daliad fod yn ddefnyddiol i ddenu canfaswyr mewn ardaloedd mwy prin eu poblogaeth lle y gallai cyfrifyddion eraill sy'n seiliedig ar etholwyr neu eiddo arwain at daliad rhy fach i wneud y gwaith yn ddeniadol.

2.65 Er mwyn annog staff i geisio casglu ffurflenni wedi'u cwblhau ar adeg dosbarthu ffurflenni cychwynnol a/neu atgoffa, gellid ystyried taliad ychwanegol fesul ffurflen a gesglir, gan adlewyrchu'r ffaith na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn mynd i gostau yn sgîl dychwelyd ffurflenni drwy'r post. Gan y byddai Post Brenhinol yn codi'r gyfradd lawn am ddychwelyd ffurflenni

[9] Rheoliad 23(3), RhCyB 2001; Rheoliad 23(2), RhCyB (yr Alban) 2001.

drwy'r post, mae lle i dalu swm ychwanegol sylweddol i ganfaswyr, yn enwedig os caiff ei gynnig pan ddosberthir y ffurflenni cychwynnol lle y byddai dychwelyd ffurflen yr adeg honno hefyd yn osgoi costau argraffu ffurflen atgoffa.

2.66 Os yw canfaswyr yn gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ i gasglu ffurflenni sydd heb eu dychwelyd ar ôl dosbarthu ffurflenni cychwynnol a ffurflenni atgoffa, gellid ystyried taliad i'w cymell o hyd, yn enwedig gan y bydd staff yn ymweld â'r cartrefi sydd leiaf tebygol o ddychwelyd y ffurflen neu ymateb i'r canfasiad erbyn hynny. Gallai cymhellion ariannol fod ar ffurf cyfradd sefydlog sy'n gysylltiedig â nifer yr eiddo yr ymwelir â hwy, gyda thaliad ychwanegol am bob ffurflen a gesglir. Fel arall, gellid ystyried taliad mwy ar sail nifer y ffurflenni a gesglir yn unig.

2.67 Er mwyn cymell canfaswyr ymhellach, gellid ystyried taliad ychwanegol i'r canfaswyr hynny sy'n cyflawni cyfradd ymateb benodedig. Os gwneir hyn dylid mynd ati mewn ffordd sensitif a dylid sicrhau nad yw'r targedau a osodir yn afresymol, ac os oes unrhyw gosb y gellir ei chyfiawnhau'n deg. Efallai y bydd hefyd angen ystyried yr ardaloedd y lleolwyd y canfasiwr ynddynt. Dylai unrhyw gynllun i gymell canfaswyr gydnabod bod rhai ardaloedd yn fwy anodd eu canfasio nag eraill a dylai fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod gwaith y canfaswyr yn yr ardaloedd mwy heriol yn gallu cael ei wobrwyo'n briodol.

2.68 Gall fod yn ddefnyddiol ystyried pob cam o'r canfasiad fel proses ar wahân wrth ystyried dulliau o dalu a symiau a gallai cyfateb y taliadau i'r gwaith gwirioneddol ar bob cam fod yn debygol o arwain at system decach o dalu yn gyffredinol. Byddai hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i nodi a gwerthuso costau pob cam o'r canfasiad ar wahân.

2.69 Er bod cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn aml yn sicrhau y dychwelir mwy o ffurflenni, pan wneir hyn, yn enwedig os cyfrifir taliadau ar sail nifer y ffurflenni a ddychwelir yn unig, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ymwybodol y gallai rhai canfaswyr ddychwelyd ffurflenni ffug er mwyn cael mwy o gyflog. Pan fydd gwaith monitro yn dangos bod y cyfraddau ymateb yn uchel a hynny'n annisgwyl, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod o'r farn ei bod yn briodol edrych ar waith y canfasiwr hwnnw ymhellach.

2.70 Hefyd, gall fod yn briodol bwrw golwg dros ffurflenni a ddychwelwyd ar hap, a allai gynnwys cymharu gwybodaeth ar ffurflenni canfasio â chofnodion eraill y cyngor neu gymharu llofnodion cartrefi lle nad oes newid â chofnodion eraill sydd ym meddiant y Swyddog Cofrestru Etholiadol, megis ffurflenni cofrestru blaenorol neu ffurflenni cais pleidleisio absennol.

2.71 Sut bynnag, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hysbysu canfaswyr yr ymdrinnir ag unrhyw ymgais i gyflwyno cofnodion ffug yn ddifrifol. Dylid gwneud hyn yn y canllawiau ysgrifenedig a roddir iddynt, a hefyd mewn unrhyw sesiwn hyfforddi a gynhelir. Os ymddengys fod canfasiwr wedi bod yn gwneud hyn, mae'n hanfodol gweithredu ar unwaith. Er y bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol bennu'r camau priodol i'w cymryd fesul achos, argymhellir y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ymgynghori â'i

adran adnoddau dynol o ran y gweithdrefnau disgyblu priodol i'w dilyn. Pan fo angen, gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd ystyried erlyn canfaswyr am achos o ddwyn neu ffugio ac, os felly, byddai'n ddoeth gofyn am arweiniad gan gynghorwyr cyfreithiol yr awdurdod lleol sydd wedi penodi'r canfasiwr dan sylw ar y camau nesaf i'w cymryd.

2.72 Pa gynllun bynnag a ddewisir i dalu canfaswyr, rhaid sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o ran isafswm cyflog. Er mwyn dangos y talwyd yr isafswm cyflog, gallai fod yn ddoeth gofyn i ganfaswyr gadw cofnod o nifer yr oriau maent yn gweithio yn ystod y canfasiad.

Am wybodaeth am yr isafswm cyflog cenedlaethol, gweler www.berr.gov.uk/employment/pay/national-minimum-wage/index.html

2.73 Bydd hefyd angen ystyried talu lwfansau i staff. Er enghraifft, os telir lwfansau teithio i staff, bydd y gofynion archwilio yn debygol o'i gwneud yn ofynnol i gadw cofnodion manwl o'r milltiroedd gwirioneddol a gaiff eu teithio neu'r costau yr eir iddynt i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac ni ddylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol danamcangyfrif faint o waith sydd ynghlwm wrth y broses hon. Gellid rhoi'r gorau i daliadau lwfansau teithio a chynyddu cyfraddau'r taliadau eraill a gynigir fel opsiwn arall. Gellid gwneud hyn hefyd o ran unrhyw lwfansau eraill a delir yn draddodiadol i staff sy'n gwneud y math hwn o waith, megis talu cyfraddau premiwm am weithio y tu allan i oriau arferol ac ar benwythnosau.

Dulliau o dalu staff

2.74 Bydd yn rhaid i ganfaswyr dalu treth incwm oni bai eu bod o dan y trothwy ac Yswiriant Gwladol oni bai eu bod wedi'u heithrio.

2.75 Bydd eu cyfnod cyflogaeth yn amrywio yn dibynnu ar y dull o ganfasio. Yn gyffredinol bydd yr Arolygydd Trethi yn derbyn, er yn ymarferol y gall canfasiwr gael un taliad pan gwblheir ei wythnos, at ddibenion treth gellir dehongli hyn fel petai'n ymestyn dros gyfnod sy'n para rhwng 10 a 13 wythnos, er enghraifft.

2.76 Efallai y bydd polisïau a gweithdrefnau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r awdurdod sydd wedi penodi'r canfaswyr yn ei gwneud yn ofynnol i dalu pob aelod o staff drwy'r system gyflogres wythnosol/misol. Gallai fod o fudd i'r staff dan sylw os gwneir taliadau'n raddol wrth i'r gwaith fynd rhagddo, er y gallai fod yn fwy o gymhelliant i dalu'r holl ffioedd a lwfansau mewn un cyfandaliad pan gwblheir y gwaith.

2.77 Drwy ddefnyddio system y gyflogres ni fydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fynd ati i wneud cyfrifiadau manwl mewn perthynas â didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Pan ddefnyddir system y gyflogres, bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod yr holl ffurflenni cyflogres perthnasol yn cael eu cwblhau ac yn cael eu rhoi i adran y gyflogres mewn da bryd. Dylai'r ffurflenni cyflogres gael eu cwblhau a'u dychwelyd gan ganfaswyr

yn y sesiynau hyfforddi, gan olygu y gellir ateb unrhyw ymholiadau ar gam cynnar heb beri'r risg o oedi cyn gwneud taliadau.

Diogelwch a risgiau

2.78 Gan fod y canfasiad blynyddol yn cael ei gynnal yn yr hydref ac y bydd gan lawer o ganfaswyr swyddi yn ystod y dydd, caiff cryn dipyn o waith canfaswyr ei wneud gyda'r nos, a fydd yn mynd yn fwyfwy tywyll wrth i'r cyfnod canfasio fynd rhagddo. Yn ogystal, gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn ymwybodol o ardaloedd neu eiddo o fewn yr ardal gofrestru lle ceir problemau penodol a allai effeithio ar ddiogelwch canfaswyr. Dylid ystyried y ffactorau hyn yn ofalus wrth wneud trefniadau ar gyfer canfasio personol: dylai iechyd a diogelwch staff a gyflogir i gynnal y canfasiad fod yn brif ystyriaeth.

2.79 Dylai fod gan yr awdurdod lleol sy'n penodi canfaswyr bolisi gweithio ar eich pen eich hun y gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei fabwysiadu at ddibenion y canfasiad blynyddol. Dylid gofyn am gymorth y rhai sydd â phrofiad o weinyddu a defnyddio'r polisi er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau i ddiogelwch personol yn cael eu hystyried a'u gwerthuso drwy broses asesu risg briodol, a bod mesurau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y canfaswyr.

2.80 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod yswiriant priodol ar gael ar gyfer unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chyflogi canfaswyr personol.

2.81 Dylai materion iechyd a diogelwch fod yn rhan ganolog o unrhyw ganllawiau i ganfaswyr, gan gynnwys deunydd a argreffir a sesiynau briffio. Os bwriedir cyflogi goruchwylwyr, dylent gael eu briffio hefyd er mwyn gallu rhoi cyngor priodol ar iechyd a diogelwch i'w canfaswyr.

Adnabod staff

2.82 Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael cerdyn adnabod â'i lun arno. Dylid cyfarwyddo staff i'w wisgo bob amser wrth wneud eu gwaith a'i ddangos pan gânt eu herio. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi rhestr o enwau canfaswyr i'r heddlu neu, o leiaf, hysbysu'r heddlu lleol o ddyddiadau dechrau a gorffen y canfasiad. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol rhoi copi o'r rhestr hon i 'swyddog ar ddyletswydd' neu 'dîm y tu allan i oriau arferol' yr awdurdod lleol sy'n penodi canfaswyr i alluogi aelodau o'r cyhoedd i gadarnhau dilysrwydd canfasiwr ar unrhyw adeg os dymunir gwneud hynny.

2.83 Dylid gofyn am y lluniau angenrheidiol gan newydd-ddyfodiaid pan y'u penodir er mwyn paratoi'r cardiau adnabod ymhell cyn i staff newydd ddechrau gweithio.

2.84 Rhaid i staff ddychwelyd cardiau ar ddiwedd y canfasiad er mwyn osgoi'r posibilrwydd o'u camddefnyddio yn ystod gweddill y flwyddyn.

2.85 Gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd fod am ystyried rhoi 'cardiau galw' i ganfaswyr i'w gadael mewn cyfeiriadau lle maent yn gwybod bod rhywun gartref ond nad yw'n ateb y drws neu'r intercom. Dylai cardiau o'r fath egluro pwy yw'r canfasiwr a pham ei fod yn galw, a gallai hefyd gynnwys

lle i'r canfasiwr ysgrifennu dyddiad/amser ei ymweliad nesaf â'r ardal. Gall 'cardiau galw' roi sicrwydd i'r preswylydd fod y sawl sy'n galw yn ddilys a gallai olygu ei fod yn fwy parod i ateb y drws pan fydd y canfasiwr yn galw nesaf. Fel arall, gallent fod yn ddull pellach o atgoffa deiliad y cartref i gwblhau a dychwelyd y ffurflen ganfasio.

3 Gwybodaeth o ffynonellau eraill

Edrych ar gofnodion eraill y cyngor

3.1 Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod i edrych ar gofnodion a gedwir ar ba ffurf bynnag, yn unol â'i ddyletswyddau cofrestru, gan:[10]

(a) y cyngor a wnaeth ei benodi ac unrhyw gofrestr genedigaethau a marwolaethau;[11]

(b) unrhyw unigolyn, gan gynnwys cwmni neu sefydliad, sy'n darparu gwasanaethau i unrhyw awdurdod o'r fath, neu sydd â'r awdurdod i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau awdurdod o'r fath, fel y diffinnir yn (a) uchod.

3.2 Yr unigolion, cwmnïau a sefydliadau hynny yn (b) uchod gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau 'ar gontract allanol' yn unol ag unrhyw gytundeb cyllid.

3.3 Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr hawl hefyd i wneud copïau o unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion hyn.[12]

3.4 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddefnyddio'r pwerau hyn fel y bo'n angenrheidiol er mwyn cynnal y gofrestr.[13] Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys drwy'r flwyddyn ac nid dim ond yn ystod y cyfnod canfasio.

Ystyrir edrych ar gofnodion eraill y cyngor ymhellach yn Rhan D, 'Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb'.

3.5 Er mwyn gallu darparu tystiolaeth bod y ddyletswydd i gymryd y camau angenrheidiol a nodir yn Adran 9A o DCyB 1983 wedi'i chyflawni, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r defnydd a wneir o gofnodion eraill y cyngor.

Cartrefi amlddaliadaeth

3.6 Gall canfasio cartrefi amlddaliadaeth beri rhai problemau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol: er enghraifft, ni chaiff ffurflenni canfasio ar gyfer 'deiliad' adeilad o'r fath eu hagor ac yna eu cwblhau gan unrhyw un o'r preswylwyr, dim ond am fod y ffurflen ar gyfer 'y deiliad' ac nid ar gyfer unrhyw ystafell neu fflat yn benodol yn yr adeilad.

3.7 Felly, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Deddf Tai 2004, a gyflwynodd y gofyniad i drwyddedu cartrefi

[10] Rheoliad 35, RhCyB 2001.
[11] Yn yr Alban, y gofrestr genedigaethau, marwolaethau a phriodasau ydyw.
[12] Rheoliad 35(3), RhCyB 2001.
[13] Adran 9A(2)(d), DCyB 1983.

amlddaliadaeth yng Nghymru a Lloegr, a Deddf Tai (yr Alban) 2006, sy'n gwneud darpariaethau tebyg o ran cartrefi amlddaliadaeth yn yr Alban.

3.8 Yng Nghymru a Lloegr, mae'n ofynnol i landlordiaid cartrefi amlddaliadaeth roi'r wybodaeth ganlynol i'r cyngor trwyddedu:

- enw a chyfeiriad y landlord
- enw a chyfeiriad yr asiant rheoli, os oes un
- nifer yr unedau a osodir ar wahân
- nifer y cartrefi yn y cartref amlddaliadaeth
- nifer y bobl sy'n byw yn y cartref amlddaliadaeth

3.9 Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal cofrestr gyhoeddus o'r trwyddedau a roddwyd ganddo, sy'n gorfod cynnwys nifer yr ystafelloedd yn y cartref amlddaliadaeth sy'n darparu llety cysgu a byw (neu, yn achos cartref amlddaliadaeth sy'n cynnwys fflatiau, nifer y fflatiau).

3.10 Yn yr un modd, yn yr Alban rhaid i landlordiaid roi gwybodaeth benodol i'r awdurdod lleol am y cartref amlddaliadaeth ac yn eu tro mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cofrestrau cyhoeddus sy'n cynnwys gwybodaeth am drwyddedau cartrefi amlddaliadaeth ar gyfer llety byw yn eu hardal.

3.11 Argymhellwn y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol drefnu edrych ar y cofnodion hyn wrth adolygu eu cronfa ddata o eiddo er mwyn sicrhau i'r graddau y bo'n bosibl fod pob cartref mewn cartref amlddaliadaeth yn cael ffurflenni cofrestru etholiadol ar wahân.

3.12 Hefyd, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried cysylltu â landlordiaid ac asiantau rheoli i gael gwybodaeth am eu tenantiaid. Er y gall fod yn anodd iddynt roi'r holl wybodaeth gofrestru sydd ei hangen, efallai y gallant roi enwau'r rhai sy'n byw yno, a fyddai o leiaf yn galluogi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ysgrifennu at y preswylwyr hynny yn uniongyrchol.

3.13 Pan fydd llety prifysgol neu goleg yn ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol, rhaid sicrhau bod y myfyrwyr hynny wedi'u cofrestru'n gywir. Os nad yw'n bosibl canfasio pob uned llety unigol, dylid gofyn i swyddog sy'n gyfrifol am y llety hwnnw neu swyddog o'r sefydliad addysgol ddarparu rhestr o'r bobl hynny sy'n byw yno ac unrhyw wybodaeth arall amdanynt, megis eu dyddiadau geni os ydynt o dan 18 oed a'u cenedligrwydd, a fydd yn golygu y gellir cwblhau eu cofrestru pan ddarperir y wybodaeth hon yn ystod y cyfnod canfasio. Y tu allan i'r cyfnod canfasio, pe byddai rhestr o'r fath yn cael ei darparu byddai o leiaf yn golygu y gellid anfon gohebiaeth bersonol at y preswylwyr, er na ellid eu hychwanegu at y gofrestr heb lofnod a'r manylion eraill sy'n ofynnol ar gais cofrestru treigl.

3.14 Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol weithredu mewn modd tebyg o ran adeiladau amlddaliadaeth eraill megis cartrefi preswyl, cartrefi nyrsio ac ysbytai. Fel gyda llety prifysgol neu goleg, gellid hefyd ganfasio'r math hwn o eiddo drwy gasglu data gan yr unigolyn neu'r cwmni sy'n gyfrifol am yr eiddo hwnnw.

Hawl Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ofyn am wybodaeth

3.15 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un roi'r wybodaeth sydd ei hangen yn unol â'i ddyletswydd i gynnal y gofrestr.[14] Rhydd y pŵer hwn gryn awdurdod i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael gwybodaeth: golyga, er enghraifft, y gellir ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau tai, landlordiaid preifat a rheolwyr llety myfyrwyr roi gwybodaeth i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

3.16 Mae'r gofyniad i roi gwybodaeth yn ymestyn y tu hwnt i ymgeiswyr a deiliaid cartrefi i unrhyw un arall, gan gynnwys cwmnïau a sefydliadau. Dim ond y wybodaeth sy'n ofynnol i gynnal y gofrestr y caiff y Swyddog Cofrestru Etholiadol ofyn amdani, megis enwau pobl sy'n byw mewn unrhyw gyfeiriad, eu cenedligrwydd ac, os yn berthnasol, eu hawl i aros yn y, neu gael mynediad i'r DU. Hyd yn oed pan na fydd gan rywun y gofynnir iddo am wybodaeth yr holl wybodaeth gofrestru angenrheidiol, rhaid i'r wybodaeth sydd ganddo gael ei rhoi serch hynny: er enghraifft, os mai dim ond enwau pobl sy'n byw mewn cyfeiriad sy'n hysbys, rhaid i'r wybodaeth honno gael ei rhoi o hyd ac yna mater i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fyddai gwneud ymholiadau pellach ynghylch yr unigolion hynny o ran y meini prawf cofrestru eraill.

3.17 Gall unrhyw unigolyn, cwmni neu sefydliad sy'n gwrthod rhoi gwybodaeth gael dirwy o hyd at £1,000. Gall dychwelyd gwybodaeth anwir arwain at chwe mis o garchar fan bellaf a/neu ddirwy o £5,000.[15]

Cysylltu mewn ffyrdd eraill

3.18 Mae'r camau a nodir yn Adran 9A o DCyB 1983 yn cynnwys cysylltu â phobl nad ydynt ar y gofrestr mewn ffordd arall sy'n briodol ym marn y Swyddog Cofrestru Etholiadol.[16]

3.19 Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ac nid dim ond yn ystod y cyfnod canfasio: er enghraifft, yn ystod y cyfnod canfasio gall fod yn briodol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fynd i ffeiriau yn ystod wythnos y glas neu ddigwyddiadau ysgolion neu golegau ac annog y rhai sy'n bresennol i gwblhau ffurflen cofrestru etholiadol; y tu allan i'r cyfnod canfasio, gallai'r cyswllt hwn gynnwys anfon ffurflenni cofrestru treigl i gyfeiriad lle mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ymwybodol y gallai fod preswylwyr newydd, megis ar ôl edrych ar gofnodion treth gyngor. Gallai'r cyswllt hefyd gynnwys ymweld ag eiddo yn bersonol.

Ystyrir y ddyletswydd yn Adran 9A i gymryd y camau angenrheidiol o ran y broses gofrestru dreigl ymhellach yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

[14] Rheoliad 23, RhCyB 2001.
[15] Adran 13D, DCyB 1983.
[16] Adran 9A(2)(c), DCyB 1983.

Cadw cofnodion ar y gofrestr

3.20 Unwaith y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cymryd yr holl gamau a restrir yn Adran 9A o DCyB 1983, efallai y bydd rhai cartrefi o hyd na fyddant wedi cael ffurflen gofrestru ganddynt nac yn meddu ar ddigon o wybodaeth i ddileu unrhyw etholwyr a gofrestrir yn y cyfeiriad hwnnw ar y pryd.

3.21 Os na chaiff y ffurflen ganfasio flynyddol ei dychwelyd neu os na cheir digon o wybodaeth am y sawl sy'n byw mewn cartref am unrhyw reswm arall, caiff y Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw cofnod unigolyn ar y gofrestr o etholwyr am y cyfnod a ddaw i ben pan gyhoeddir fersiwn diwygiedig o'r gofrestr.[17] Os nad oes unrhyw ymateb yn dilyn y canfasiad canlynol ac na all y Swyddog Cofrestru Etholiadol fel arall fodloni ei hun fod yr etholwr yn dal i fyw yn y cyfeiriad hwnnw, rhaid dileu enw'r etholwr o'r gofrestr.

3.22 O ran Rheoliad 34 o RhCyB 2001, os gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol fodloni ei hun fod unigolyn yn dal i fyw yno er gwaethaf y ffaith na ddychwelwyd ffurflen ganfasio, drwy gymryd y camau angenrheidiol a amlinellir yn Adran 9A o DCYB 1983 fwy na thebyg, nid oes angen defnyddio'r ddarpariaeth hon gan nad yw'r amgylchiadau yn Rheoliad 34 (2) yn gymwys. I bob diben golyga hyn pan fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi bodloni ei hun fod unigolyn yn dal i fyw yno a bod ganddo'r hawl i gael ei gofrestru o hyd, ailosodir y cloc a dim ond os na ddychwelwyd ffurflen yn dilyn y canfasiad canlynol **ac** na allai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fodloni ei hun mwyach bod gan yr unigolyn yr hawl i gael ei gofrestru, y byddai Rheoliad 34 yn gymwys.

3.23 Pan fydd Swyddog Cofrestru Etholiadol yn bwriadu dileu enw o'r gofrestr etholiadol am na ddychwelyd ffurflen gofrestru yn dilyn dau ganfasiad ac na fu'n bosibl fel arall i fodloni ei hun fod yr etholwr yn dal i fyw yno, dylid anfon hysbysiad o'r bwriad i ddileu'r enw o'r gofrestr at yr etholwr dan sylw.

3.24 Pan gaiff enw ei ddileu o'r gofrestr o dan y darpariaethau hyn, dylid cadw cofnod o'r camau a gymerwyd oherwydd gallai fod yn ddefnyddiol cael y dystiolaeth hon pe byddai'r unigolyn hwnnw, ar adeg yr etholiad, yn holi ynghylch pam na all fwrw pleidlais.

Eithrio a'r cyfnod 'cario drosodd'

3.25 Os na chaiff y ffurflen ganfasio flynyddol ei dychwelyd neu os na cheir digon o wybodaeth am y sawl sy'n byw mewn cartref fel arall a defnyddir y darpariaethau cario drosodd a nodir yn Rheoliad 34 ac a ddisgrifir uchod, dylai dewis etholwr i gael ei eithrio gael ei gario drosodd i'r cyfnod hwnnw.

[17] Rheoliad 34, RhCyB 2001.

4 Ffurflenni cofrestru treigl a gafwyd yn ystod y cyfnod canfasio

Ceir canllawiau manwl ar y broses gofrestru dreigl y tu allan i'r cyfnod canfasio yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

4.1 Nid yw'r broses gofrestru dreigl yn cael ei gohirio yn ystod y cyfnod canfasio: mae'n parhau yn ystod mis Medi, mis Hydref a mis Tachwedd er gwaethaf y ffaith nad yw'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyflwyno hysbysiad misol o unrhyw addasiadau.[18] Rhaid cynnwys unrhyw geisiadau o'r fath a gafwyd ac y pennir eu bod yn ddilys yn ystod y cyfnod canfasio ar y gofrestr ddiwygiedig a gyhoeddir erbyn 1 Rhagfyr.[19]

4.2 Ni ellir gwrthod na gohirio ffurflenni cofrestru treigl yn ystod y canfasiad blynyddol am na ddarparwyd y cais ar ffurflen ganfasio: ni ellir gohirio na gwrthod cais ac eithrio os na fydd y cais yn cynnwys y wybodaeth ofynnol neu os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod yr ymgeisydd yn gymwys i gofrestru.

Mae'n hanfodol prosesu ffurflenni cofrestru treigl a gafwyd yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd bleidleisio mewn unrhyw is-etholiadau a gynhelir yn fuan ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig. Mae hefyd yn galluogi ymgeiswyr i wneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol os dewisant wneud hynny, gan fod yn rhaid i unigolyn fod ar y gofrestr etholiadol i fod yn gymwys i wneud hynny.

4.3 Mae'n bwysig sicrhau bod pawb mewn cartref wedi'u cofrestru ac felly ni ddylid derbyn un cais cofrestru treigl fel ffurflen ar gyfer yr eiddo cyfan o reidrwydd. Ni ddylai'r ffaith y dychwelwyd ffurflen gofrestru dreigl olygu nad anfonir rhagor o ffurflenni canfasio a ffurflenni atgoffa i'r eiddo hwnnw os nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cael ffurflen ganfasio eto.

4.4 Gall fod yn ymarferol gwahanu ceisiadau cofrestru treigl a'r ffurflenni canfasio, stampio'r dyddiad arnynt ac yna eu cymharu ag unrhyw ffurflenni canfasio o'r un eiddo tuag at ddiwedd y cyfnod canfasio. Er bod yn rhaid gallu astudio ceisiadau cofrestru treigl am bum diwrnod ar ôl eu dychwelyd, byddai modd penderfynu arnynt yn ddiweddarach ar yr amod y gwneir hyn mewn da bryd fel eu bod yn ymddangos ar y gofrestr ddiwygiedig a gyhoeddir erbyn 1 Rhagfyr.

4.5 Os dychwelwyd ffurflen ganfasio ond nad yw'n cynnwys enw'r ymgeisydd cofrestru treigl, ni ddylid anwybyddu'r ffurflen gofrestru dreigl. Yn yr achosion hyn, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadarnhau sefyllfa'r preswylwyr, a gallai ystyried gwneud hynny drwy gael canfasiwr i ymweld â'r cyfeiriad hwnnw yn bersonol.

[18] Adran 13A(3), DCyB 1983.
[19] Adran 13(2), DCyB 1983.

5 Diwedd y canfasiad

Cyhoeddi cofrestr

5.1 Ar ôl i'r canfasiad ddod i ben, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn.[20] Mae hyn yn gofyn am gyhoeddi'r canlynol:

- y gofrestr lawn o etholwyr ar gyfer pob math o etholiad wedi'i chyfuno i'r graddau y bo'n bosibl yn un gofrestr sy'n cynnwys y manylion dynodi etholfraint priodol
- y gofrestr wedi'i golygu, sy'n gopi union o'r gofrestr lawn ond nad yw'n cynnwys y rhai sydd wedi dewis peidio â chaniatáu i'w manylion ymddangos arni, ac
- y rhestr o etholwyr tramor[21]

5.2 Os nad yw 1 Rhagfyr yn ddiwrnod gwaith mewn unrhyw flwyddyn, rhaid cyhoeddi'r gofrestr erbyn y dyddiad hwn serch hynny.[22] Yn wahanol i gyfrifiadau eraill adeg etholiad, ni chaiff y cyfnod ei ymestyn i'r diwrnod gwaith nesaf.

RPF29

5.3 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth ragnodedig benodol am ganlyniadau'r canfasiad blynyddol ar gyfer y gofrestr o etholwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol.[23]

Yn yr Alban, rhaid ei rhoi hefyd i Weinidogion yr Alban a Chofrestrydd Cyffredinol Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau'r Alban.

5.4 Bob blwyddyn mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ac, yn yr Alban, Swyddfa Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban (GROS) yn rhoi ffurflen RPF29 i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol at y diben hwn. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyflwyno'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.

Ffurflenni safonau perfformiad

5.5 Mae gan y Comisiwn Etholiadol y pŵer i bennu a monitro safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif refferendwm a chasglu gwybodaeth am gostau gwasanaethau etholiadol.[24] Bydd y Comisiwn yn cyflwyno fframwaith safonau perfformiad ar gyfer cofrestru etholiadol erbyn haf 2008 a bydd yn

[20] Adran 13(1), DCyB 1983.
[21] Rheoliad 45(3), RhCyB 2001.
[22] Adran 13(1)(a), DCyB 1983.
[23] Rheoliad 44, RhCyB 2001.
[24] Adrannau 9A–9C, DPGER.

disgwyl yr adroddiadau cyntaf yn erbyn y fframwaith hwn gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn dilyn canfasiad blynyddol 2008.

Darparu'r gofrestr lawn

5.6 Unwaith y cyhoeddir y cofrestrau diwygiedig, bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi cofrestrau i'r sefydliadau hynny sydd â hawl i gael copi.

Mae rhagor o ganllawiau ar ddarparu copïau o'r gofrestr ar gael yn Rhan F, 'Gweld y gofrestr a'i darparu'.

Cadw ffurflenni cofrestru

5.7 Dylai copïau o ffurflenni cofrestru gael eu cadw naill ai fel delweddau wedi eu sganio neu gopïau caled. Drwy wneud hynny, gellir ateb unrhyw gwestiynau diweddarach ynghylch gwallau clercol posibl a hefyd gellir defnyddio'r ceisiadau a gadwyd i gymharu'r wybodaeth ynddynt â'r manylion adnabod personol a roddwyd ar unrhyw geisiadau pleidleisio absennol dilynol.

Y 'rheol 11 diwrnod' a'r canfasiad blynyddol

5.8 Os cyhoeddir yr hysbysiad etholiad, rhaid cyhoeddi hysbysiad ychwanegol o addasu'r gofrestr etholwyr.[25]

5.9 Mae'r 'rheol 11 diwrnod' hwn yn golygu mai hanner nos yw'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau newydd i gofrestru ar gyfer unrhyw etholiad ar yr unfed diwrnod ar ddeg cyn y diwrnod pleidleisio. Caiff ceisiadau llwyddiannus eu hychwanegu drwy gyhoeddi'r hysbysiad o addasiad o ran yr etholiad bum diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gellir llunio hysbysiad o addasiad o'r fath yn ystod y cyfnod canfasio, a bydd yn addasu'r gofrestr a addaswyd ddiwethaf ar y diwrnod gwaith cyntaf ym mis Medi.

Etholiadau yn ystod y cyfnod canfasio

5.10 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr opsiynau posibl sydd ar gael i Swyddog Cofrestru Etholiadol os cynhelir etholiad yn ystod y cyfnod canfasio.

5.11 Un o'r prif benderfyniadau fyddai a ddylid cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn gynt nag arfer, gan gynnwys yr holl newidiadau o ran ffurflenni canfasio a chofrestru treigl. Y dyddiad cynharaf y gellid cyhoeddi cofrestr ddiwygiedig ar ôl i ganfasiad ddod i ben fyddai pum diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad perthnasol, sef 15 Hydref. Nid yw'r Comisiwn o'r farn y dylid ystyried cyhoeddi cofrestr ddiwygiedig yn gynnar ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod canfasio, hyd yn oed pe byddai etholiad cyffredinol Senedd y DU yn cael ei alw.

[25] Adran 13B, DCyB 1983.

5.12 Wrth gyhoeddi cofrestr ddiwygiedig o'r fath, mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddileu unrhyw etholwr nad oedd yn destun y rheol 'cario drosodd' yn y flwyddyn flaenorol **ac** nad yw wedi dychwelyd ffurflen ganfasio. Felly byddai hyn yn byrhau cyfnod cofrestru unrhyw etholwr yr oedd hyn yn gymwys iddo ac a fyddai fel arfer wedi'i gofrestru tan 1 Rhagfyr. Yn ddiau, byddai hyn yn golygu bod llawer o etholwyr yn cael eu difreinio ac o ganlyniad i hynny nid argymhellir hyn. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried y ffaith y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gamau gwahanol o'u canfasiad pe byddai unrhyw etholiad yn cael ei alw, ac mae'n cydnabod y gallai'r effaith fod yn wahanol ymhob ardal.

5.13 Gan dybio na chaiff cofrestr ddiwygiedig ei chyhoeddi, mae'n rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi hysbysiad o addasiad bum diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio o hyd.[26] Rhaid cynnwys yr holl geisiadau cofrestru treigl a ddychwelir erbyn y terfyn amser o 11 diwrnod yn yr hysbysiad hwn. Ni ellir cynnwys unrhyw beth a gaiff ei ychwanegu, ei ddileu neu ei newid yn y ffurflenni canfasio oherwydd byddai angen cyhoeddi cofrestr ddiwygiedig yn sgîl gwneud hynny, nad yw, am y rhesymau a amlinellir uchod, yn cael ei argymell.

5.14 Er mwyn cynyddu cyfranogiad, mae'r Comisiwn felly'n argymell y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol nodi cartrefi sydd wedi dychwelyd ffurflenni canfasio sy'n cynnwys manylion darpar etholwyr newydd ac anfon ffurflen gofrestru dreigl at y preswylwyr hynny cyn gynted â phosibl rhag ofn y caiff etholiad ei alw. Dylid hefyd anfon ceisiadau pleidleisiau post at etholwyr sydd wedi gofyn am un ar y ffurflen ganfasio. Ni fyddai angen anfon ffurflenni at bobl na fyddent yn gallu pleidleisio yn yr etholiad dan sylw, a fyddai'n cynnwys unrhyw etholwyr sy'n cael eu pen-blwydd yn 18 oed ar ôl dyddiad yr etholiad.

5.15 Os defnyddir unrhyw ganfaswyr personol pan gaiff etholiad ei alw, dylai fod ganddynt ffurflenni cofrestru treigl er y dylid hefyd ofyn i breswylwyr gwblhau'r ffurflen ganfasio safonol er mwyn cynnwys pob preswylydd a'i fanylion perthnasol.

5.16 Nid argymhellwn y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon ffurflenni cofrestru treigl cyn galw etholiad er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a chost ddiangen. Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Swyddfa'r Alban os gelwir etholiad a ariennir yn ganolog yn ystod y cyfnod canfasio er mwyn trafod unrhyw bryderon o ran cyllid a allai fod ganddynt. Dylid cofnodi cost ychwanegol cynhyrchu ac anfon ffurflenni cais ychwanegol mewn achosion o'r fath.

[26] Adran 13B(3), DCyB 1983.

Crynodeb o'r weithdrefn a argymhellir gan y Comisiwn
Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol weithredu ar yr holl geisiadau cofrestru treigl a gafwyd yn ystod y cyfnod canfasio. Os caiff etholiad ei alw, bydd hysbysiad o addasiad a gyhoeddir bum diwrnod cyn yr etholiad yn ychwanegu'r etholwyr hyn at y gofrestr ar gyfer y diwrnod pleidleisio.

Dylai'r holl ffurflenni cofrestru treigl a gafwyd erbyn yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn dyddiad unrhyw etholiad gael eu prosesu, eu pennu ac, os yn llwyddiannus, eu cynnwys yn yr hysbysiad hwn o addasiad.

Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon ffurflenni cofrestru treigl at breswylwyr newydd a gynhwysir ar ffurflenni canfasio yr ymddengys eu bod yn gymwys i gofrestru. Gellid argraffu'r ffurflenni cofrestru treigl hyn ymlaen llaw gyda'r manylion a roddwyd eisoes gan y sawl sy'n cwblhau'r ffurflen ganfasio fel mai dim ond adolygu'r manylion a'r dyddiad, llofnodi a dychwelyd y ffurflen y mae angen i ddarpar etholwr ei wneud.

Cofrestr i'w defnyddio ar gyfer etholiadau ym mis Rhagfyr

5.17 Daw'r gofrestr ddiwygiedig y mae'n rhaid ei chyhoeddi erbyn 1 Rhagfyr i rym ar unwaith pan y'i cyhoeddir. O ganlyniad, bydd unrhyw etholiad y mae'r diwrnod pleidleisio yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr yn seiliedig ar y gofrestr ddiwygiedig. Yn wahanol i hysbysiad o addasiad sydd ond yn effeithio ar etholiad os y'i cyhoeddir ar neu cyn y pumed diwrnod cyn yr etholiad, caiff cofrestr ddiwygiedig effaith ar bob etholiad ar unwaith.

5.18 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol nodi, fodd bynnag, er y bydd y gofrestr i'w defnyddio mewn etholiad ym mis Rhagfyr yn seiliedig ar y gofrestr ddiwygiedig, erys y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o addasiad ar y pumed diwrnod cyn yr etholiad, er mai dim ond cofnodi'r rhai a gyflwynodd geisiadau cofrestru treigl ar neu cyn yr unfed diwrnod ar ddeg cyn yr etholiad ac nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys ar y gofrestr ddiwygiedig a wneir.

5.19 Mae unrhyw un sydd ar y gofrestr briodol ar y diwrnod pleidleisio yn gymwys i bleidleisio ac nid yw'r rhai sy'n cael eu dileu o'r gofrestr erbyn y diwrnod pleidleisio yn gymwys i bleidleisio.

5.20 Fodd bynnag, bydd y broses o enwebu ymgeiswyr yn seiliedig ar y gofrestr sydd mewn grym ar y dyddiad olaf y gellir cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, a all fod yn gyfystyr â'r gofrestr ar 1 Medi yn dibynnu ar ddyddiad yr etholiad a dyddiad cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.

5.21 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddewis cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn gynnar pan gynhelir etholiadau yn ei ardal ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, rhaid i'r gofrestr gael ei chyhoeddi fel un ddogfen, ac ni ellir cyhoeddi wardiau neu ardaloedd etholiadol unigol. Wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig yn gynnar, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried y ffaith y gallai gwneud hynny arwain at gyfradd ymateb is i'r canfasiad, drwy roi llai o amser i ddeiliaid cartrefi ddychwelyd y ffurflen

ganfasio a llai o amser i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymryd camau i sicrhau bod y gofrestr yn gyflawn ac yn gywir.

5.22 Dylid anfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a fyddai fel arfer yn fuan iawn ar ôl yr hysbysiad etholiad. Ar gyfer etholiadau ym mis Rhagfyr, fodd bynnag, gall fod yn rhesymol anfon cardiau pleidleisio ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig a bod y rhai sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad yn hysbys, hyd yn oed os yw hyn ychydig ddiwrnodau cyn yr etholiad. Efallai y bydd angen dilyn trywydd tebyg o ran pleidleisiau post er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai sy'n gymwys i bleidleisio a gaiff pecynnau pleidleisiau post.

5.23 Er mwyn sicrhau y caiff pleidleisiau post a chardiau pleidleisio eu cynhyrchu a'u dosbarthu, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol am ystyried cyhoeddi ei gofrestr ddiwygiedig ar yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn yr etholiad fan bellaf.

6 Rhagor o adnoddau

Taflenni eithrio

6.1 Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am gynnwys copi o daflen y Comisiwn *Gan bwy y mae fy manylion personol?* gyda'u ffurflenni canfasio. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am y ddau fersiwn o'r gofrestr etholiadol a'r dewis sydd gan etholwyr o ran peidio â chaniatáu i'w manylion ymddangos ar y gofrestr olygedig.

6.2 Gellir llwytho'r daflen hon i lawr mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol yn www.dopolitics.org.uk/Toolbox/toolbox-6.cfm ac mae copïau caled hefyd ar gael ar gais.

Adnoddau canfasio blynyddol

6.3 Mae'r Comisiwn wedi llunio amrywiaeth o adnoddau templed i'w defnyddio yn y canfasiad blynyddol. Maent ar gael i'w llwytho i lawr o wefan y Comisiwn yn www.comisiwnetholiadol.org.uk